**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aaron Shotton, Kevin Jones, Dave Cowans, Michael Priestley, David Smith, John Wynn Jones, Richard Dew and J. Arwel Roberts

CS/NG

9 Mawrth 2015

Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir Cyfarfod **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU** yn **SIAMBR y CYNGOR, BODLONDEB, CONWY LL32 8DU** ar **DYDD MAWRTH, 17 MAWRTH 2015** am **6.00 y.p** i drafod y materion canlynol.

***Fe fydd WTI ar gael ar leoliad i'w alw mewn i'r cyfarfod fel bo angen***

Yr eiddoch yn gywir

Rheolwr Democratiaeth a Rheolaeth

**A G E N D A**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGAN DIDDORDEB**

3 **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

4 **MATERION YN CODI O’R CYFARFOD BLAENOROL**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – I GYSIDRO EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Mae’r eitemau isod yn cael ei gysdrio fel eitem i’w eithrio dan paragraff(au) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972 (fel a ddiwygwyd)

Mae’r proses cytundeb yn fyw a byddai’n rhagfarnllyd i’w wneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

5 **DIWEDDARIAD PWRCASU (CYFLWYNIAD I’W RHOI AR Y DIWRNOD)**

6 **UNRHYW FATER ARALL**

## CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno ar Ddydd Iau, 29 Ionawr 2015

**PRESENNOL**:
Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd) - Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Mike Priestley (Is-Gadeirydd) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Dave Cowans - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Richard Dew - Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Kevin Jones - Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Aaron Shotton - Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd William G. Roberts - Cyngor Gwynedd
Y Cynghorydd David Smith - Cyngor Sir Ddinbych

**HEFYD YN BRESENNOL:**
**Cyngor Sir y Fflint**
Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol), Gary Ferguson (Swyddog Adran 151), Gareth Owens (Swyddog Monitro) a David Webster (Rheolwr Archwilio Mewnol)

**Cyngor Sir Ddinbych**
Steve Parker (Pennaeth yr Amgylchedd)

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Andrew Wilkinson (Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth)

**Cyngor Gwynedd**
Medwyn Williams (Uwch Reolwr (Trin Gwastraff))

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Meirion Edwards (Swyddog Technegol Arweiniol) a Dewi Williams (Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd a Rheoli Gwastraff).

**Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**
Steffan Owen (Rheolwr Prosiect)
Frank Smith (Cyfarwyddwr y Prosiect)

**Partneriaethau Lleol y DU**
Huw Roberts (Ymgynghorydd)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dilwyn Williams, (Prif Weithredwr (Cyngor Gwynedd))

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Aaron Shotton ddiddordeb personol o ganlyniad i sylwadau a wnaed yn y wasg yn y gorffennol yn ymwneud â'r prosiect.

3. **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2014 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** *cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2014 fel cofnod cywir.*

4. **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. **ADRODDIAD CYNNYDD**

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect adroddiad cynnydd a dywedodd fod Wheelabrator Technologies Inc. (WTI) wedi cael eu prynu gan gwmni ecwiti preifat Americanaidd o'r enw Energy Capital Partners (ECP). Fel rhan o'r pryniant, cynhaliodd ECP adolygiad o holl brosiectau WTI y tu allan i'r Unol Daleithiau, ac o ganlyniad mae trafodaethau adolygu wedi parhau gyda WTI, gydag oedi dilynol yn yr amserlen.

Diweddarwyd y Bwrdd Prosiect, ac mae wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod goblygiadau'r oedi yn yr amserlen. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai camau allweddol yn cael eu cynnwys yn yr eitemau yng ngweddill yr agenda.

**PENDERFYNWYD** *nodi'r adroddiad.*

6. **DIWEDDARIAD CYFATHREBU**

Diweddarodd y Rheolwr Prosiect yr aelodau ar faterion cyfathrebu sy'n ymwneud â Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC).

Adroddodd y Rheolwr Prosiect fod dau wrthwynebiad ffurfiol wedi eu derbyn yn dilyn cyflwyno'r cais cynllunio, gan Gyfeillion y Ddaear (un gan Gyfeillion y Ddaear Cymru ac un cyfunol gan ddau grŵp lleol o Gyfeillion y Ddaear). Roedd y gwrthwynebiadau wedi eu hanfon at y Swyddogion Cynllunio i roi ymateb ffurfiol.

Gofynnodd y Cynghorydd Aaron Shotton a oedd sylwadau wedi dod i law gan drigolion Burton. Dywedodd y Rheolwr Prosiect ei fod yn ymwybodol o'u gwrthwynebiadau, ond nad oedd wedi gweld unrhyw fanylion penodol eto.

**PENDERFYNWYD** *nodi'r diweddariad cyfathrebu.*

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Ystyriwyd yr eitem ganlynol fel un wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

Mae cydbwysedd diddordeb y cyhoedd yn erbyn datgelu'r adroddiad, gan y gallai hyn niweidio'r broses gaffael.

7. **<u>RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect yr adroddiad Cofrestr Risg a oedd yn amlygu rhai o'r newidiadau i'r gofrestr risg a wnaed i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o'r risgiau a mesurau lliniaru sydd ar waith.

Adroddodd y Rheolwr Prosiect fod nifer o risgiau newydd neu risgiau diwygiedig yn ychwanegol at yr hyn a adroddwyd i Fwrdd y Prosiect, fel y dangosir yn yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r risgiau newydd yn cael eu cynnwys yn yr eitemau yng ngweddill yr agenda.

**PENDERFYNWYD** *nodi'r diweddariad ar Gofrestr Risg y prosiect.*

**<u>DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD</u>**

Ystyriwyd yr eitem ganlynol fel un wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r broses gontract yn dal i fod ar y gweill, a byddai'n cael ei niweidio drwy ei gwneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

8. **<u>DIWEDDARU CAFFAEL</u>**

Rhoddodd Colin Everett, Prif Weithredwr (Cyngor Sir y Fflint) gyflwyniad manwl ar y sefyllfa gaffael ddiweddaraf, ac ymatebodd i'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed.

Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddwyd cynrychiolwyr WTI i roi cyflwyniad manwl ar eu cynigion diwygiedig, ac ymateb i'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed.

**PENDERFYNWYD** *rhoi adborth penodol i WTI ar eu cais, a gofyn i WTI ystyried yr adborth hwnnw wrth adolygu ymhellach eu cynnig i'r Bartneriaeth. Mae'r Tîm Prosiect i barhau trafodaethau gyda WTI yng ngoleuni adborth penodol y Cydbwyllgor.*

9. **<u>UNRHYW FATER ARALL</u>**

Byddai cyfarfod nesaf Cydbwyllgor yn cael ei alw yn dilyn adborth a thrafodaethau pellach gyda WTI, ond mae'n debygol o fod ym mis Mawrth 2015

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 p.m.**